**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU**

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 23 Chwefror 2021 am 5.00 pm

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd M Adams (Cadeirydd)

Y Cynghorydd W Lewis
Y Cynghorydd P Jarman
Y Cynghorydd J Brencher
Y Cynghorydd M Griffiths
Y Cynghorydd A Cox
Y Cynghorydd M Forey
Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd H Boggis
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd W Jones
Y Cynghorydd G Hughes

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr S Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Mrs N. Kingham, Rheolwr Bwrdd Diogelu Cwm Taf
Mr P Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr R Waters, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Rheng-flaen

### Aelod Cyfetholedig yn bresennol

Mr J Fish, Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr wedi'i ethol â'r hawl i bleidlais

### 23 Datganiadau o Fuddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda ar yr adeg yma.

Serch hynny, gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Brencher y datganiad o fuddiant personol canlynol nes ymlaen yn y cyfarfod (cofnod 27) - “Mae fy mab yn gweithio i gwmni Trafnidiaeth Cymru”.

### 24 Ymddiheuriadau

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol E Stephens ac L Walker.

### 25 Cofnodion

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ionawr, 2020 yn rhai cywir.

### 26 Dolenni Ymgynghori

**PENDERFYNODD** yr Aelodau gydnabod yr wybodaeth oedd wedi'i darparu trwy'r dolenni ymgynghori mewn perthynas ag ymgynghoriadau agored, ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru a'r materion hynny y mae'r awdurdod lleol yn cynnal ymgynghoriadau ynglŷn â nhw.

**27 Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wybod bod adroddiad mewn perthynas â Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi cael ei gyflwyno i Aelodau er mwyn cyflawni gwaith cyn y cam craffu cyn i'r adroddiad gael ei drafod yn ystod cyfarfod o'r Cabinet ar 25 Chwefror 2021, a hynny yn dilyn trafodaethau yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 18 Ionawr 2021.

Rhannodd y Prif Weithredwr adroddiad, sy'n rhoi diweddariad am gynnydd gwaith Cyd-gabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ('CCR') (y 'Cabinet Rhanbarthol' - cyd-bwyllgor), i oruchwylio twf economaidd y Rhanbarth ac i gyflawni'r ymrwymiadau a nodir ym Margen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Cafodd Aelodau wybod am gefndir y cynllun i greu Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn 2016, a rhoddodd y Prif Weithredwr wybod bod hyn yn gytundeb rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a deg arweinydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Cafodd Aelodau grynodeb o raglen y Fargen Ddinesig, sy'n cynnwys:

- Buddsoddiad gwerth £1.2 biliwn yn isadeiledd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd trwy Gronfa Fuddsoddi 20 mlynedd;
- Creu Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol anstatudol i gydlynu gwaith cynllunio a buddsoddi ym maes trafnidiaeth, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru;

Aeth y Prif Weithredwr ymlaen gan roi gwybod bod y buddsoddiad gwerth £ 1.2biliwn ar gyfer cynllun Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cynnwys dwy elfen benodol. Mae hyn yn cynnwys £734miliwn ar gyfer cynllun METRO a £495miliwn ar gyfer Cronfa Buddsoddi Ehangach y Cabinet Rhanbarthol. Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at adran 5 yr adroddiad, sy'n rhannu'r newyddion diweddaraf ar y cynnydd sydd wedi'i wneud mewn perthynas â'r Adolygiad Porth y mae angen ei gyflawni bob 5 mlynedd. Cafodd yr Aelodau wybod bod SQW wedi cael ei gomisiynu gan Lywodraeth y DU i gyflawni gwerthusiad o effaith y buddsoddiadau sydd wedi'u gwneud hyd yn hyn yn rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd. Cafodd manylion ynglŷn â'r cynnydd a'r buddsoddiadau mawr sydd wedi'u gwneud hyd yn hyn eu rhannu â'r Aelodau.

Daeth y Prif Weithredwr a'i adroddiad i ben trwy roi gwybod am y gwaith cadarnhaol y mae'r deg awdurdod lleol wedi'u gwneud i ddatblygu Bargen Ddinesig sydd wedi'i chydlynu, sy'n drefnus ac sy'n canolbwyntio ar faterion economaidd sy'n darparu sylfaen arbennig i gyflawni pymtheng mlynedd nesaf rhaglen gyllid y Fargen Ddinesig, gan ddyblu'r cyllid grant sydd ar gael a chreu cyfres o gronfeydd cynaliadwy sy'n gallu cefnogi twf economaidd am sawl flwyddyn i ddod.

Rhannodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Rheng Flaen a Chyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu'r newyddion diweddaraf mewn

perthynas â gwaith yr awdurdod trafnidiaeth rhanbarthol ac effaith adfywio a thai a'r manteision y mae'r rhain yn eu cynnig i'r Fwrdeistref Sirol.

Roedd y Cadeirydd wedi diolch i'r swyddogion am yr adroddiad a nododd y datblygiadau cadarnhaol mewn perthynas â'r seilwaith trydanol i gefnogi mannau gwefru ar gyfer tacsis. Cafodd y rhain eu nodi yn ystod adolygiad y gweithgor a gafodd ei sefydlu i drafod datblygu seilwaith i gefnogi perchnogaeth cerbydau carbon isel.

Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman wedi holi cyfres o gwestiynau i swyddogion ac aethon nhw ati i ymateb iddyn nhw. Cafodd yr Aelod wybod bod mwy na 10 cyfarfod o'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi cael eu cynnal. Mae CBSRhCT bellach yn cefnogi'r trefniadau craffu sydd ar waith. O ran ymholiadau'r Cynghorydd Jarman mewn perthynas â'r Adolygiad Porth, dywedodd y Prif Weithredwr fod penodi SQW wedi bod yn rhan o'r broses safonol sy'n cael ei chynnal ledled y DU, gan Drysorlys y DU. Dywedodd hefyd fod SQW wedi'i sefydlu yn rhan o fframwaith cystadleuol ledled y DU. O ganlyniad i hyn roedd modd i academyddion o Gymru gystadlu ar gyfer y gwaith yma.. Cafodd yr Aelod ei chyfeirio at yr adroddiad SQW sydd wedi'i nodi yn yr atodiad i'r adroddiad yn ogystal â'r adborth cynhwysfawr a chadarnhaol sydd wedi'i ddarparu.

O ran yr ymholiad mewn perthynas â nifer y swyddi sydd wedi cael eu creu yn rhan o'r rhaglen, rhoddodd y Prif Weithredwr wybod nad oedd modd iddo roi'r union nifer y swyddi a gafodd eu creu hyd yn hyn, ond cadarnhaodd fod gan y rhaglen darged o greu 25,000 o swyddi newydd erbyn 2036.

Rhannodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Rheng Flaen, fanylion y gwaith buddsoddi sydd eisoes wedi cael ei gyflawni ar y rheilffyrdd ledled y Fwrdeistref Sirol â'r Cynghorydd Jarman. Roedd y gwaith yma'n darparu gwelliannau er mwyn lliniaru difrod gan lifogydd ond hefyd i gynorthwyo â datblygiadau'r Metro, gyda mwy o waith sylweddol yn cael ei gyflawni na'r disgwyl gan fanteisio ar gyfnodau teithio llai prysur o ganlyniad i bandemig Covid. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y Cyngor yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i ddatrys y problemau sydd wedi codi mewn perthynas â llinell Cwm Cynon. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth at adroddiadau WelTAG a fyddai'n cael eu cyflwyno i'r Cabinet mewn perthynas â'r cynigion i ymestyn y rheilffordd tu hwnt i Aberdâr tuag at Hirwaun, datblygu'r cynllun parcio a theithio yn ardal Glan-bad, Trefforest. Siaradodd hefyd am yr achos busnes amlinellol sy'n cael ei gyflwyno mewn perthynas ag ymestyn Astudiaeth Trawstaith RhCT. Wrth ymateb i ymholiad pellach, cadarnhawyd y byddai'r posibilrwydd o ehangu gwasanaethau rheilffordd tu hwnt i Dreherbert tuag at ardal Tynewydd yn cael ei ystyried fel elfen yn rhan o Astudiaeth Cysylltedd Canolbarth y Cymoedd sy'n cael ei chychwyn ar hyn o bryd.

Roedd y Cyfarwyddwyr Materion Ffyniant a Datblygu wedi siarad am atyniad 'Zip World' a'r adenillion y mae disgwyl i'r atyniad eu dychwelyd. Soniodd y Cyfarwyddwr am yr angen i fanteisio ar yr atyniad yma i sicrhau bod twristiaid yn aros yn y Fwrdeistref Sirol. Aeth y Cyfarwyddwr ati i fynd i'r afael â chwestiwn y Cynghorydd Jarman mewn perthynas â chronfa buddsoddi mewn tai a'r angen am drefniadau gwerthuso datblygiadau cadarn gan Ddatblygwyr.

Holodd y Cadeirydd am bosibiliadau 'tocyn trwodd' ar y rheilffordd a chostau gwasanaeth o'r fath, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wybod bod

trafodaethau'n cael eu cynnal gyda chwmni Trafnidiaeth Cymru i sefydlu cwmpas y systemau tocynnau gan gynnig un math o docyn ar gyfer sawl math o drafnidiaeth.

Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Brencher wedi holi swyddogion am y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Holodd sut y mae swyddogion yn mynd ati i gyllido RhCT gwell, gan nodi rôl bwysig Prifysgol De Cymru. Siaradodd y Prif Weithredwr am ansicrwydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin gan nodi bod Llywodraeth y DU yn awyddus i roi cyllid i Ranbarth y Fargen Ddinesig yn hytrach na gan Lywodraeth Cymru. Cytunodd y Prif Weithredwr fod Prifysgol De Cymru yn chwarae rôl hollbwysig yn y Fargen Ddinesig, a siaradodd am gyfraniadau Is-ganghellor y Brifysgol a'r gwaith ymgysylltu sy'n mynd rhagddo â Phenaethiaid y Colegau yn y rhanbarth yn rhan o Bartneriaeth Twf.

Holodd Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Griffiths pryd y byddai RhCT yn gweld effaith y cynlluniau sydd ar y gweill, os yw'r adolygiadau porth ond yn cael eu cyflawni bob 5 mlynedd. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai peth amser yn mynd heibio cyn gweld effeithiau economaidd mawr a chyfeiriodd at gynlluniau blaenorol y mae'r Cyngor wedi'u cyflawni a'r amserlenni cysylltiedig, gan gyfeirio at gynllun Dyffryn Taf.

Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Cox wedi holi tri chwestiwn mewn perthynas ag effeithiolrwydd y Fargen Ddinesig hyd yn hyn a goblygiadau pandemig Covid, goblygiadau ar economi RhCT a threfniadau llywodraethu'r Fargen Ddinesig.

Roedd y Prif Weithredwr wedi ymateb i Aelodau trwy gyfeirio at dudalen 113 o'r adroddiad, sy'n nodi'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith yn rhan o gyd-cabinet a siaradodd am yr effaith gadarnhaol y byddai Cyd-Bwyllgor Corfforaethol posibl yn y dyfodol yn ei chael ar wella trefniadau llywodraethu.

O ran pandemig Covid, dywedodd y Prif Weithredwr fod nifer o geisiadau wedi'u gwneud i lywodraeth y DU am gyllid i fuddsoddi mewn rhwydweithiau ffeibr i wella gwasanaethau digidol. Dywedodd y Prif Weithredwr, er bod patrymau teithio wedi newid oherwydd pandemig Covid, byddai galw o hyd ar y rhwydwaith rheilffyrdd.

Holodd yr Aelod Cyfetholedig, Mr J Fish, y swyddogion am y cyllid Ewropeaidd a ymrwymwyd i'r rhaglen a hefyd y cysylltiadau addysg a'r llwybrau gyrfa o fewn sectorau Fintech. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod y cyllid Ewropeaidd wedi'i warantu a dywedodd y byddai'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn disodli'r ddarpariaeth ariannu wrth symud ymlaen. O ran llwybrau gyrfa, cyfeiriodd y Prif Weithredwr at waith gyda Phrifysgol De Cymru er mwyn datblygu rhaglenni i raddedigion a rhaglen Meistr yn y meysydd hynny lle mae yna brinder sgiliau. Yn dilyn cwestiwn ychwanegol gan y Cadeirydd, cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod y Cyngor eisoes yn hyrwyddo cyfleoedd gyrfa yn yr ysgolion uwchradd.

Tynnodd nifer o Aelodau sylw at rannau o'r adroddiad gan siarad am y manteision cadarnhaol a fyddai'n amlwg ledled y Fwrdeistref Sirol o ganlyniad i raglen y Fargen Ddinesig, gan gyfeirio at y gwelliannau nodedig a fyddai'n cael eu cyflawni ym maes trafnidiaeth er budd trigolion y Sir o ganlyniad i'r metro yn ogystal â'r diwydiant twristiaeth yn y Fwrdeistref Sirol.

Yn dilyn craffu manwl mewn perthynas â'r adroddiad, fe wnaeth y Pwyllgor

**PENDERFYNU**:

1. Cydnabod cynnwys adroddiad Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a gafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gais y Pwyllgor; a
2. Bod y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yn rhannu sylwadau'r Aelodau yn ystod cyfarfod o Gabinet y Cyngor ar 25 Chwefror.

**Nodwch:** Ar yr adeg yma yn y cyfarfod, roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Brencher wedi datgan buddiant personol: “Mae fy mab yn gweithio i gwmni Trafnidiaeth Cymru”.

**28 Trefniadau'r Awdurdod Lleol ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion mewn Perygl**

Rhannodd y Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant y newyddion diweddaraf ynglŷn â'r cynnydd sydd wedi'i wneud mewn perthynas â threfniadau diogelu corfforaethol y Cyngor yn ystod y 12 mis diwethaf. Cyfeiriwyd at adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru a gynhaliwyd yn 2019 a oedd wedi canfod bod y Cyngor wedi cwrdd, neu wedi cwrdd yn rhannol, â'r rhan fwyaf o'r argymhellion a'r cynigion blaenorol ar gyfer gwella. Fodd bynnag, ychwanegodd y Cyfarwyddwr Cyfadran fod rhai cynigion pellach ar gyfer gwella wedi'u gwneud er mwyn cryfhau agweddau ar drefniadau Diogelu Corfforaethol y Cyngor a chafodd manylion ynghylch chwe chynnig eu darparu.

Aeth y Cyfarwyddwr Cyfadran ymlaen i drafod y sefyllfa bresennol a'r gwaith pellach y mae angen ei gyflawni mewn perthynas â'r trefniadau diogelu, gan gyfeirio at atal hunanladdiad, Cam-drin Plant yn Rhywiol a Diogelu Cyd-destunol.

Siaradodd Aelodau'r Pwyllgor am bwysigrwydd materion megis trefniadau diogelu ar gyfer plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Siaradodd y Cadeirydd a Chynghorydd y Fwrdeistref Sirol Jarman am yr effaith dorcalonnus y mae hunanladdiad yn ei chael ar aelodau'r teulu a chafodd y Cyfarwyddwr Cyfadran ei holi am y cymorth sydd ar gael i gefnogi aelodau'r teulu yn ystod cyfnodau heriol yn rhan o'r strategaeth amlasiantaeth. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyfadran fod y Bwrdd wedi bwrw ymlaen â grŵp goruchwylio strategol sy'n ceisio llunio drafft o strategaeth atal hunanladdiad, ar ôl cydnabod nad oedd bwrdd cydlynu rhanbarthol yn bodoli ac o ganlyniad i gynnydd yn nifer yr achosion o hunanladdiad yn y rhanbarth. Siaradodd Cyfarwyddwr y Grŵp am y trefniadau ychwanegol sydd ar waith mewn perthynas â grŵp adolygu sy'n edrych ar 'wersi a ddysgwyd'. Darparodd y Rheolwr Busnes, Bwrdd Diogelu Cwm Taf rhagor o wybodaeth mewn perthynas ag un strategaeth ranbarthol ar gyfer atal hunanladdiad sydd wedi cael ei datblygu a'r amcan strategol sydd wedi'i nodi yn y strategaeth ac sy'n ymwneud â gwella sut mae gwybodaeth yn cael ei darparu i'r rheiny sydd wedi cael eu heffeithio gan hunanladdiad. Nododd y Rheolwr bod y Bwrdd wedi cydnabod bod angen gwella hyn. Cafodd yr Aelodau wybod bod Llywodraeth Cymru wedi penodi Cydlynydd Atal Hunanladdiad a rhoddodd y Rheolwr wybod am y gwaith agos sy'n cael ei gyflawni rhwng y Bwrdd a'r Cydlynydd ar gyfer y rhanbarth. Cyfeiriodd hefyd at

y llwybr profedigaeth Cenedlaethol sy'n cael ei gyflawni yn yr ardal yma.

Holodd Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol Cox a oedd y trefniadau diogelu wedi'u heffeithio o ganlyniad i bandemig covid, gan ystyried bod plant ddim wedi bod yn bresennol yn lleoliadau ysgol a felly mae'n bosibl bod llai o atgyfeiriadau wedi bod. Holodd yr Aelod am gynlluniau hir dymor i sicrhau nad yw plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn cael eu colli yn ystod y cyfnod unigryw yma.

Cytunodd y Cyfarwyddwr Cyfadran taw dyma un o'r brif heriau ar gyfer y gwasanaeth ac roedd y gwasanaeth yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod plant ac oedolion sy'n agored i niwed ddim yn cael eu colli, gan ddefnyddio cyfarfodydd rhithwir os yw'n bosibl a pharhau i gynnal cyfarfodydd gan gadw pellter cymdeithasol pan fo angen. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyfadran fod yr holl arferion gwaith wedi'u haddasu yn unol â rheoliadau covid a'r gwasanaethau hanfodol a gynhelir. Roedd pob grŵp partneriaeth ar gyfer byrddau diogelu bellach yn gweithredu unwaith eto ar ôl atal cyfarfodydd ar ddechrau'r cyfyngiadau symud. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cyfadran fod y pandemig wedi ychwanegu pwysau i'r gwasanaeth a nododd ei bod hi'n bosibl y bydd y pwysau yma'n cynyddu wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio dros y misoedd nesaf, bydd y gwasanaeth yn ymateb i fodloni gofynion y gwasanaeth.

Holodd Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Brencher am y mesurau diogelu sydd ar waith mewn perthynas â 'bwlio ar-lein'. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cyfadran fod hwn yn flaenoriaeth ar gyfer y Bwrdd. Roedd Rheolwr Busnes, Bwrdd Diogelu Cwm Taf, wedi pwysleisio pwysigrwydd mynd i'r afael â'r maes diogelu yma a chyfeiriodd at y gwaith roedd y Bwrdd yn ei gyflawni gyda Heddlu De Cymru o ran darparu hyfforddiant rhithwir mewn perthynas â cham-drin ar-lein. Dywedodd y Rheolwr hefyd am ymgyrchoedd covid y mae Heddlu Du Cymru wedi'u cyflawni gyda phobl ifainc am y peryglon sy'n gysylltiedig â llwyfannau ar-lein.

Siaradodd y Cynghorydd W Jones yn gadarnhaol am y dulliau cydweithredol rhwng ysgolion a sawl adran y cyngor er budd pobl ifainc ac oedolion sy'n agored i niwed.

Holodd y Cadeirydd a oedd unrhyw effaith ar 'Linellau Sirol' a holodd sut ydyn nhw'n mynd i'r afael â hyn yn ystod y cyfyngiadau symud. Dywedodd Cyfarwyddwr y Grŵp fod gwybodaeth yn cael ei darparu gan Heddlu De Cymru. Dywedodd fod effaith Llinellau Sirol hyd yn hyn wedi'i chyfyngu, ond bod y bygythiad yn parhau a bod y gwasanaethau yn gweithio gyda'r partneriaid i ddiogelu plant ac oedolion ifainc sy'n agored i niwed.

**29 Adolygiad y Cadeirydd a dod â'r cyfarfod i ben**

Crynhodd Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r pwyntiau trafod allweddol ac estynnodd ei ddiolch i'r Aelodau a'r Swyddogion am eu presenoldeb ac am gyfarfod adeiladol a heriol. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai sylwadau'r Aelodau ar yr adroddiadau a drafodwyd yn cael eu hadrodd i'r Cabinet gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.59 pm**

**Y Cynghorydd M. Adams**
**Cadeirydd.**